Prosiect menter ar y cyd sy'n
cael ei ddatblygu gan

RWE

y diweddaraf o'r
# ystafell newyddion
Hydref 2024



Fferm Wynt Alltraeth
AWEL Y MÔR
Offshore Wind Farm

www.awelymor.cymru

# croeso


## Rhifyn Medi 2024

Croeso i rifyn yr hydref o gylchlythyr prosiect Awel y Môr.

Yn y cylchlythyr hwn, cewch ddiweddariadau ar ein gwaith, sydd wedi cynnwys cynnal ymchwiliadau safle ar y tir ac archaeoleg yn ystod y misoedd diwethaf, yn ogystal ag arddangos y gyrfaoedd sydd ar gael ym maes ynni adnewyddadwy.

Gyda'r gwaith datblygu i fod i barhau dros y misoedd nesaf, byddem yn annog unrhyw gwmni sy'n awyddus i gael gwaith ar Awel y Môr i gofrestru gyda **Rhaglen Ymgysylltu Tryloywder Cyflenwyr RWE**.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu ymholiadau, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm gyda'r manylion cyswllt sydd wedi'u nodi ar y cylchlythyr hwn.









# Darganfod tai crwn o'r Oes Haearn ar safle is-orsaf ar y tir Awel y Môr

Mae tystiolaeth o ddau dŷ crwn hynafol, yn ogystal â chwpan glai ac erfyn carreg (y ddau yn y llun uchod) wedi cael eu darganfod mewn cae fel rhan o waith paratoi Awel y Môr.

Daethpwyd o hyd i'r olion, a allai ddyddio mor bell yn ôl â'r Oes Haearn ((800CC-48OC) neu gyfnod yr feddiannaeth Rufeinig (48OC-410OC), fel rhan o arolwg ffos archaeolegol cyn adeiladu, ac maent yn tynnu sylw at sut y gallai bywyd fod wedi bod i'r bobl a oedd yn byw yng ngogledd Cymru ar y pryd.

Mae tîm y prosiect bellach yn cynllunio rhagor o ymchwiliadau manwl cyn adeiladu'r safle yn Sir Ddinbych, i'r gorllewin o Barc Busnes Llanelwy, a fydd yn y pen draw yn gartref i is-orsaf y prosiect ar y tir.

Dywedodd Liz Statham, Swyddog Prosiect o Wessex Archaeology: "Mae defnyddio technegau geoffisegol cyn i ni ddechrau gwaith cloddio archaeolegol yn ein galluogi i weld o dan y pridd ar draws ardaloedd mawr, sy'n gyffrous iawn gan ei fod yn golygu y gallwn ni ddechrau creu darlun o archaeoleg ardal gymharol eang.

"Ar safle is-orsaf ar y tir Awel y Môr, roedd yr arolwg geoffisegol wedi datgelu tystiolaeth o ddau dŷ crwn hynafol yn mesur tua 10m ar draws. Mae'n debygol iawn y byddai'r rhain wedi bod mewn caeau a phadogau lle byddai anifeiliaid yn cael eu cadw a chnydau'n cael eu tyfu.

"Ar ôl yr arolwg, buom yn cloddio ffosydd prawf ac yn canfod tystiolaeth a oedd yn cadarnhau hyn, gan gynnwys esgyrn anifeiliaid sy'n awgrymu bod gwartheg, defaid a moch yn cael eu cadw, yn ogystal â rhai canfyddiadau sy'n rhoi cipolwg ar sut gallai bywyd bob dydd fod wedi edrych yn yr anheddiad hwn, gan gynnwys carreg gyda thwll a gâi ei defnyddio o bosibl i wehyddu brethyn, a chwpan glai fach iawn.

"Mae'r safle hwn ar ffordd fodern y B5381 sy'n mynd tua'r gorllewin o Lanelwy i Foelfre y credir ei bod yn dilyn cwrs ffordd Rufeinig, felly mae'n bosibl y byddai'r anheddiad hwn wedi cael ei adeiladu neu ei ehangu oherwydd y cyfleoedd a ddarparai'r ffordd i fasnach a chludiant."

Dywedodd Tamsyn Rowe, Arweinydd Prosiect Awel y Môr: "Mae datblygiadau fel Awel y Môr yn creu swyddi ac yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy  ond mae iddyn nhw fanteision mawr hefyd yn helpu i ddatblygu ein dealltwriaeth o'r mannau lle maen nhw.

"Mae'r tîm a minnau'n edrych ymlaen at gael rhagor o wybodaeth wrth i'n gwaith fynd rhagddo."



Liz Statham, Swyddog Prosiect yn Wessex Archaeology ar safle Awel y Môr

# Cwmni o Sir y Fflint yn profi'r tir ar gyfer Awel y Môr

Mae cwmni o Sir y Fflint wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith cyn adeiladu Awel y Môr wrth i'r prosiect gwblhau'r cynlluniau ar gyfer llwybr ei geblau ar y tir.

Mae Geotechnics wedi bod yn cynnal ymchwiliadau ar y tir a fydd, yn y pen draw, yn cynnal cysylltiad tanddaearol Awel y Môr i'w is-orsaf ar y tir.

Mae'r busnes yn cyflogi tua 100 o bobl, ac mae'n cynnig samplu yn y maes, profion, profion labordy ac adroddiadau desg ochr yn ochr â gwasanaethau ymchwiliadau safle eraill i helpu i ddylunio gwaith a lleihau risgiau cyn i'r gwaith adeiladu ddigwydd.

Dywedodd Paul Hayes, y Rheolwr Gyfarwyddwr: "Rydym wedi bod yn falch iawn o fod yn rhan o Awel y Môr, sy'n cynnig cyfle enfawr i ogledd Cymru wrth iddo ddatblygu.

"Mae'r diwydiant ynni adnewyddadwy yn faes sy'n tyfu ar gyfer ein busnes, sydd hefyd wedi cael ei alw i helpu prosiectau gan gynnwys prosiectau datgarboneiddio eraill, ond hefyd piblinellau, llwybrau ceblau, dyfrbontydd, priffyrdd ac ailddatblygiadau trefol.

"Ar ôl gosod ein cynlluniau ein hunain i gyrraedd sero net yn unol â thargedau Llywodraeth y DU, mae'n braf iawn bod yn rhan o'r hyn sy'n ddarn mawr o'r pos ar gyfer datgarboneiddio ynni yn ein rhan ni o'r byd."






## Diweddariad prosiect

Gyda'r gwaith o gynllunio elfennau cyntaf y gwaith adeiladu ar y tir yn mynd rhagddo, mae'r tîm yn canolbwyntio ar baratoi safle'r is-orsaf ar y tir i'r gorllewin o Barc Busnes Llanelwy a chasglu rhagor o ddata er mwyn cwblhau'r cynlluniau.

Yn ogystal ag archaeoleg, mae'r tîm wedi bod yn ffensio ardal o dir amaethyddol i greu cynefin gwell ar gyfer madfallod dŵr cribog. Bydd hyn yn golygu y bydd unrhyw aelodau o'r rhywogaethau pwysig a gwarchodedig hyn a ganfuwyd cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau yn gallu parhau i ffynnu.

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn cynnal nifer o arolygon ecolegol ac arolygon eraill, gan gynnwys edrych ar goed, ystlumod a chyflwr y pridd.

Yn ystod y cyfnod hwn, rydym wedi parhau i gysylltu ag aelodau o'r gymuned a chynrychiolwyr etholedig yn ogystal â'r rhai sy'n gweithio yn yr hyn a fydd yn ffurfio cadwyn gyflenwi ehangach y prosiect.

# Cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi

Os ydych chi'n rhan o gwmni sy'n gweithio ym maes ynni gwynt ar y môr neu os hoffech chi gael gwybod sut gallwch fod yn ymwybodol o'r holl gyfleoedd yng nghadwyn gyflenwi Awel y Môr, dylech chi ystyried cofrestru ar gyfer Rhaglen Ymgysylltu Tryloywder Cyflenwyr RWE.

Mae'r rhai sydd wedi cofrestru yn rhan o gronfa ddata sydd â swyddogaeth chwilio agored gyda chyflenwyr eraill, ac maent yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau a chyfleoedd rheolaidd i gwrdd â rheolwyr ein cadwyn gyflenwi.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:
**https://awelymor.cymru/suppliers/?lang=cy**



# Cynrychioli Awel y Môr mewn diwrnod agored ynni adnewyddadwy



Rheolwr Cyfathrebu Awel y Môr Josh Morris ochr yn ochr â Ffion Davies o'r Gynghrair Ynni ar y Môr

Yn ddiweddar, aeth tîm Awel y Môr, ynghyd â chydweithwyr o barc gwyddoniaeth M-SParc Ynys Môn, i ddiwrnod agored ar yrfaoedd ym maes ynni adnewyddadwy gydag OPS Wind.

Mae Awel y Môr ac M-SParc yn rhan o'r Gynghrair Ynni ar y Môr, sef clwstwr cadwyn gyflenwi ynni a'r môr ar gyfer gogledd Cymru a gogledd-orllewin Lloegr.

Cynhaliwyd y diwrnod gan OPS Wind ar ei safle yn Bootle, Glannau Mersi, a daeth dwsinau o unigolion a oedd â diddordeb mewn gyrfaoedd ym maes ynni adnewyddadwy.

Mae gan OPS Wind swyddfa yn Llandudno hefyd, ac mae'n darparu gwasanaethau cynnal a chadw arbenigol i'r diwydiant ynni adnewyddadwy ac yn gweithio ar safleoedd ledled y byd.

Mae'r cwmni hefyd yn cynnig cymwysterau a hyfforddiant sy'n benodol i'r diwydiant i bobl sydd naill ai'n awyddus i newid gyrfa neu ymuno â'r diwydiant ynni adnewyddadwy fel eu cam cyntaf i fyd gwaith.



O'r chwith i'r dde: Rhys Parry, Tudur Evans i Noah Carey

# Mwy o brentis-dechnegwyr tyrbinau gwynt nag erioed yn ymuno ag RWE

Mae RWE wedi recriwtio ei garfan fwyaf erioed o brentis-dechnegwyr tyrbinau gwynt i wasanaethu ar ei fflyd gynyddol o ffermydd gwynt ar y môr.

Mae technegwyr dan hyfforddiant wedi cael eu recriwtio i weithio ar nifer o ffermydd gwynt ar y môr ledled y DU, gan gynnwys Gwastadeddau'r Rhyl sy'n agos at Fferm Wynt ar y Môr Awel y Môr sydd wrthi'n cael ei datblygu oddi ar arfordir gogledd Cymru.

Dywedodd Noah Carey, un o'r tri gafodd eu recriwtio i weithio ar Wastadeddau'r Rhyl: "Rwy'n edrych 'mlaen at gael gafael ar yr offer, mynd allan 'na a datblygu.

"Fe wnes i gwrs peirianneg pŵer y llynedd ar ôl rhywfaint o brofiad gwaith gydag RWE, pan fues i'n ddigon ffodus i gael cyfle i fynd allan ar y môr o Borthladd Mostyn a chael gweld y tyrbinau gyda'm llygaid fy hun."

Mae Tudur Evans, sy'n dod o Gorwen yn Sir Ddinbych, yn un o'r rhai fydd yn gweithio ar Wastadeddau'r Rhyl. Dywedodd: "Mae fy nhad wedi bod yn gweithio mewn ynni adnewyddadwy am y ddegawd ddiwethaf, ac mae bob amser yn dweud wrtha' i pa mor dda mae'r yrfa wedi bod iddo.

"Gyda'r prosiectau newydd sy'n cael eu datblygu gyda thechnoleg flaengar, mae'n ddiwydiant sy'n tyfu ar garreg ein drws ni yma yng ngogledd Cymru."

# Intern newydd yn ymuno â thîm y prosiect

Mae tîm Awel y Môr wedi croesawu intern newydd, sy'n awyddus i ddod i adnabod y diwydiant ynni adnewyddadwy wrth i'r prosiect nesáu at y cam adeiladu.


Yn ddiweddar cwblhaodd Alice Collins ei hail flwyddyn o gwrs Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Caerwysg, ac mae hi'n ymuno fel rhan o'i blwyddyn mewn diwydiant.

Mae hi'n ymuno â'r tîm wrth i'r intern blaenorol Isobel Emery ddychwelyd at ei hastudiaethau mewn Gwyddor Gymdeithasol Amgylcheddol ym Mhrifysgol Caint.

Dywedodd Alice, sydd y tu allan i'w diddordebau academaidd hefyd wedi gweithio fel hyfforddwr tennis; "Mae gallu cael profiad ymarferol ar adeg mor allweddol i Awel y Môr yn gyfle anhygoel.

"Byddaf yn gallu ehangu fy ngwybodaeth am sut mae prosiectau fel hyn yn cyd-fynd â'u hamgylcheddau, yn ogystal â chyfrannu at gynlluniau ar gyfer y gadwyn gyflenwi, sgiliau a chyflogaeth.

"Mae'r diwydiant ynni adnewyddadwy yn dechrau ar gyfnod sylweddol o dwf wrth i ni geisio mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ac rwy'n falch o allu chwarae fy rhan fy hun yn gwneud hynny."



0800 197 8232 awelymor@rwe.com